OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2011 Rhif 112 (Cy.29)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 24, Cyfnewidfa Coldra i Gyffordd 23a Magwyr, Casnewydd) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Dros Dro) 2011

*Gwnaed* *24 Ionawr 2011*

*Yn dod i rym* *31 Ionawr 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Drafford Llundain i'r De (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y drafford"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd a chyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r drafford oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 31 Ionawr 2011 a'i enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 24, Cyfnewidfa Coldra i Gyffordd 23a Magwyr, Casnewydd (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Dros Dro) 2011

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn :

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn, a chan unrhyw gerbyd a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 31 Ionawr 2011 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darnau o'r drafford" ("*the lengths of the motorway*") yw'r darnau o'r drafford a ddisgrifir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei yrru ar y darnau o'r draffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru, sy'n lletach na 2.0 fetr fynd ar hyd lôn allanol y darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 2.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 3.

6. Mae darpariaethau Rheoliad 3 o Reoliadau Traffig Traffyrdd (Terfyn Cyflymder) 1974**(3)**, i'r graddau y maent yn ymwneud â'r darnau o draffordd, drwy hyn yn cael eu hatal ar yr adegau pan fo'r gwaharddiad a bennir yn erthygl 5 ar waith.

7. Dim ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddon traffig yn dangos fod y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau y cyfeirir atynt ynddynt, y bydd y darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 o'r Gorchymyn hwn yn gymwys.

8. Bydd y Gorchymyn hwn yn parhau am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 24 Ionawr 2011.

**J COLLINS**
Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyflenwi Seilwaith
Llywodraeth Cynulliad Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi.

**(2)** Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**(3)** O.S.. 1974/502

# YR ATODLENNI

## ATODLEN 1

**Gwahardd pob cerbyd.**

1) Y darn hwnnw o brif gerbytffordd tua'r dwyrain y draffordd sy'n ymestyn o bwynt lle y mae'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 24, Cyfnewidfa Coldra, yn gwyro o brif gerbytffordd y draffordd hyd at bwynt lle y mae'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 23a, Magwyr yn uno â phrif gerbytffordd tua'r dwyrain y draffordd.

2) Hyd cyfan y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 24, Cyfnewidfa Coldra.

3) Y darn hwnnw o brif gerbytffordd tua'r gorllewin y draffordd sy'n ymestyn o bwynt lle y mae'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 23a yn gwyro o brif gerbytffordd tua'r gorllewin y draffordd hyd at bwynt lle y mae'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 24, Cyfnewidfa Coldra yn uno â phrif gerbytffordd y draffordd.

4) Hyd cyfan y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 23a, Magwyr.

## ATODLEN 2

**Gwahardd cerbydau sy'n lletach na 2.0 fetr**

Y darnau hynny o lonydd allanol y prif gerbytffyrdd tua'r dwyrain a thua'r gorllewin y draffordd sy'n ymestyn o bwynt 500 o fetrau o ganolbwynt trosbont Trefesgob i Lanfarthin hyd at bwynt 500 o fetrau i'r gorllewin o'r cyfryw drosbont.

## ATODLEN 3

**Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro**

1) Y darn hwnnw o'r brif gerbytffordd tua'r dwyrain a thua'r gorllewin y draffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 24, Cyfnewidfa  Coldra hyd at ganolbwynt Cyffordd 23a Magwyr.

2) Hyd y cyfan y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 24, Cyfnewidfa Coldra.

3) Hyd cyfan y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 23a, Magwyr.